

Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd Penrhyn ar **11 Medi 2023** am 6.30 pm.

PRESENNOL:- Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Elin Walker Jones; y Cyng. Gareth Parry (Dirprwy Faer), Cyng. Steve Bell, Cyng. Dylan Fernley, y Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Shane Parsons, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. L. Toth.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Carwyn (Gweinyddwr y Cyngor), Sioned Jones (Cyfieithydd) ac un Aelod o'r Cyhoedd.

44/23 YMDDIHEURIADAU: Cyng. Salamatu Fada, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng. Delyth Russell, Cyng Gareth Roberts a Cyng John Wyn Williams.

45/23 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Datganodd y Cyng Eirian Williams Roberts ddiddordeb yn eitem 9(i), gan ei bod yn Aelod o'r cwmni. Ni chymerodd ran yn y ddadl na'r pleidleisio.

Datganodd y Cyng Michael Pattinson a'r Cyng Elin Walker Jones ddiddordeb yn eitem 9(ii) gan eu bod yn Aelodau o'r corff sy'n gwneud cais. Ni chymerodd y naill na'r llall unrhyw ran yn y ddadl na'r bleidlais ar yr eitem.

46/23 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Derbyniodd y Cyngor gyflwyniad ar yr Argyfwng Hinsawdd gan gynrychiolwyr lleol. Roedd y cyflwyniad yn manylu ar y sefyllfa fyd-eang sy'n dirywio ar hyn o bryd a'r camau arfaethedig y gellid eu cymryd yn lleol a fyddai'n dechrau mynd i'r afael â'r sefyllfa. Anogwyd y Cyngor i gymryd rhan yn y Ras i Sero.

Yn dilyn sesiwn cwestiwn ac ateb byr diolchodd y Maer i'r cynrychiolwyr am y cyflwyniad.

47/23 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG

Adroddiad wedi ei ddosbarthu cyn y cyfarfod.

Roedd adroddiad Y Cyfarwyddwr Dinesig wedi'i gylchredeg ymlaen llaw cyn y cyfarfod. Roedd yr Adroddiad yn diweddarau'r Cyngor ar fentrau a digwyddiadau cyfredol. Tynnodd sylw at lwyddiant Diwrnod Glanhau'r Maer a'r Wyl Haf ac adroddwyd y bydd adroddiad ariannol ar yr Wyl Haf yn cael ei baratoi a'i gyflwyno yn y cyfarfod nesaf. Dywedwyd fod Arddangosfa Gelf Pontydd Dynol mewn cysylltiad â dyfodiad y ddirprwyaeth o Soest ddiwedd y mis, bellach wedi agor yn Storiell. Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw at waith caled hirsefydlog un swyddog Soest penodol i'r prosiect Gefeillio. Cyhoeddodd Y Cyfarwyddwr Dinesig fod y Gadeirlan yn cynnal gwasanaeth coffáu Brwydr Prydain ddydd Sadwrn 16 Medi a gwahoddwyd yr holl Gynghorwyr i fod yn bresennol. Gan nad oedd y Maer na'r Dirprwy Faer ar gael gofynnwyd i unrhyw Gynghorydd a oedd yn fodlon croesawu'r ymwelwyr ar ran y Cyngor hysbysu'r Cyfarwyddwr Dinesig. Yn olaf, atgoffwyd y Cyngor bod cwrs hyfforddi Cynghorwyr wedi'i drefnu ar gyfer nos Lun 18 Medi am 6.30 pm.

PENDERFYNWYD: Derbyn Adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig a dyfarnu Gwobr Ddinesig i Petra Menke Koerner.

48/23 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 17 GORFFENNAF 2023

PENDERFYNWYD: bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2023.

49/23 CYMERADWYO ADRODDIAD YR ARCHWILWYR MEWNOL.

Roedd yr Adroddiad Archwilio Mewnol wedi'i ddosbarthu ymlaen llaw cyn y cyfarfod.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Dinesig Adroddiad Archwilio Mewnol y Cyngor a thrafododd y mân faterion a godwyd a sut i fynd i'r afael â'r materion hyn.

PENDERFYNWYD: derbyn yr Adroddiad Archwilio Mewnol.

50/23 CYMERADWYO DOGFENNAU'R CYNGOR

Roedd pum dogfen y Cyngor wedi'u cylchredeg ymlaen llaw.

Dywedwyd bod Polisi'r Wasg a'r Cyfryngau a'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol yn ddiweddariadau o bolisiâu blaenorol tra bod gweddill y dogfennau wedi'u paratoi o'r newydd.

Y dogfennau a gyflwynwyd oedd:

- 1) Adroddiad Blynyddol 2023-2024
- 2) Polisi'r Wasg a'r Cyfryngau
- 3) Polisi Cyfryngau Cymdeithasol
- 4) Polisi Hyfforddi a Datblygu
- 5) Cynllun Hyfforddi a Datblygu

PENDERFYNWYD: cymeradwyo'r dogfennau fel y'u cyflwynwyd.

51/23 CYMERADWYO AD-DREFNU STRWYTHUR Y CYNGOR A SEFYDLU IS-BWYLLGORAU.

Rhoddyd gwybod i'r Cyngor, yn dilyn newidiad i'r cynnig cychwynnol, nad oedd newid mawr yn cael ei gynnig fel roedd y pennawd yn yr agenda yn ei awgrymu. Awgrymwyd y byddai o fudd i'r Cyngor sefydlu Pwyllgor Cyllid a Throsolwg. Byddai pwyllgor o'r fath yn cyfarfod bob chwarter (neu yn ôl yr angen) ac yn cynnwys Cyn Feiri. Prif swyddogaeth y Pwyllgor fyddai craffu ar daliadau ac adroddiadau ariannol y Cyngor. Cafwyd trafodaeth fanwl yn dilyn hyn.

PENDERFYNWYD: cymeradwyo sefydlu Pwyllgor Cyllid a Throsolwg, fel cysyniad, yn amodol ar dderbyn y Cylch Gorchwyl, a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf.

52/23 CYMERADWYO GRANT I GEFNOGI.

Cyflwynwyd cais am arian grant ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi 2024 a Showzone i'r Cyngor.

PENDERFYNWYD :

- i) Dyfarnu grant o £500 i Showzone i dalu costau cludiant yn ôl ac ymlaen i'r plant i ddigwyddiadau.
- ii) Rhoi grant o 50% o'r costau neu hyd at uchafswm o £2,000 i'r dathliadau Dydd Gŵyl Dewi.

Datganodd y Cyng Eirian Williams Roberts ddiddordeb yn eitem 9(i), gan ei bod yn Aelod o'r cwmni. Ni chymerodd ran yn y ddadl na'r pleidleisio.

Datganodd y Cyng Michael Pattinson a'r Cyng Elin Walker Jones ddiddordeb yn eitem 9(ii) gan eu bod yn Aelodau o'r corff sy'n gwneud cais. Ni chymerodd y naill na'r llall unrhyw ran yn y ddadl na'r bleidlais ar yr eitem.

53/23 TRAFOD TRYDYDD CROESIAD POSIBL Y FENAI.

Er bod rhywfaint o ddryswch o hyd ynghylch a oedd y prosiect hwn wedi'i ohirio, nodwyd, hyd yn hyn, nad oedd unrhyw gyfathrebu wedi'i dderbyn ar y pwnc. Cydnabuwyd y byddai sefydlu trydedd pont yn cael effaith ar y Ddinas ac o'r herwydd, awgrymwyd y dylai'r Cyngor ofyn am fanylion ac am gael gwybod am unrhyw ddiweddariadau.

PENDERFYNWYD: gofyn i Gyfarwyddwr y Ddinas gysylltu â Llywodraeth Cymru a gofyn i Gyngor y Ddinas gael gwybod am unrhyw ddatblygiadau.

54/23 CYMERADWYO ARIANNU AP BANGOR

Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

55/23 PROSIECT ARWYDDION – CADARNHAU OPSIYNAU MAP

Unwaith eto gofynnwyd i'r Cyngor drafod y pum opsiwn mapio sy'n gysylltiedig â'r Prosiect Arwyddion newydd. Yn gyffredinol, roedd y Cyngor yn llai na bodlon ar yr opsiynau ond yn y pen draw gwnaeth ei ddewis

PENDERFYNWYD:

- i) bwrw ymlaen â'r dewis lliw yn opsiwn map 2 a darluniad yr adeiladau yn opsiwn 3 ar y map.
- ii) Ysgrifennu at y cyflenwr a gofyn am eglurhad ar nifer o faterion, gan gynnwys rhai gwallau sillafu, gwahanu lliwiau ac ati.

56/23 CEISIADAU CYNLLUNIO

- i) Cais cynllunio C23/0666/11/CR Caniatâd ôl-weithredol i dynnu ffitiadau mewnol o Eglwys Dewi Sant, Ffordd Caernarfon.
Roedd y Cyngor yn unfrydol yn erbyn y cais hwn. Penderfynodd fod angen tynnu sylw at y ffaith fod colli'r ffitiadau hyn yn golled i dreftadaeth hanesyddol y gymuned leol a Bangor yn ei chyfanrwydd ac roedd y Cyngor yn siomedig nad oes neb yn gwybod ble mae'r ffitiadau erbyn hyn.
- ii) Cais cynllunio C23/0679/11/TC Tynnu'r ffenestri presennol a thynnu ac ailosod rhan o'r cysylltffur yn Adeilad Deiniol.
Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau

57/23 Cymeradwyo Taliadau

Gohiriwyd yr eitem hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.55 p.m

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR